CYNLLUN ADFER NATUR SIR GÂR - AMFFIBIAID AC YMLUSGIAID

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau Bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth

Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr S7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'u rheolaeth a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Gweler gwefan www.arguk.org i gael gwybodaeth fwy manwl am y rhywogaethau.
Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r lluniau.

Y RHYWOGAETH		**Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN**	**Y MATERION / CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL**
Anguis fragilis **Neidr ddefaid** © W. Glam ARG		• Bron unrhyw gynefin agored neu led-agored - mae gan y neidr ddefaid ddosbarthiad eang ac mae i'w gweld yn fynych mewn gerddi.	• Dyma'r ymlusgiad mwyaf cyffredin yn Ynysoedd Prydain ond mae'r niferoedd wedi lleihau yn sgil colli cynefinoedd addas.
Bufo bufo **Llyffant dafadennog** © Sivi Sivanesan		• Mae llyffantod dafadennog yn eang eu dosbarthiad - mae'n well ganddynt baru mewn dyfroedd dyfnion. Mae ganddynt reddf fudo gref a byddant yn dilyn yr un llwybr yn ôl i'r pyllau lle bu eu hynafiaid yn bwrw eu grifft bob gwanwyn.	• Mae'r dosbarthiad yn eang ond mae'r niferoedd yn lleihau. Nid yw'r rhesymau dros hynny wedi eu cadarnhau ond mae'n debygol bod darnio cynefinoedd a dulliau amaethu dwys wedi cyfrannu at hynny. • Mae rhywfaint o lyffantod dafadennog yn cael eu lladd wrth groesi'r ffyrdd i gyrraedd eu safleoedd bwrw grifft. Dylai cynlluniau ffyrdd newydd dirfesur ar gyfer llwybrau mudo ac osgoi ffosydd cerrig yma. Dylid rhoi ystyriaeth i dwneli bywyd gwyllt a'r defnydd o gyrbau isel. Hefyd, wrth wella hen ffyrdd, dylid ystyried ôl-osod nodweddion addas ar lwybrau mudo. Dylid cymryd gofal o ran ysgolion draeniau gan nad ydynt yn datrys y broblem. • Mewn mannau yn Sir Gaerfyrddin gosodwyd arwyddion sy'n rhybuddio ynghylch bod llyffantod dafadennog yn croesi'r ffordd ar eu taith fudol ac mae gwirfoddolwyr yn cynnal patrolau er mwyn helpu llyffantod dafadennog i groesi'r ffordd yn y gwanwyn. • Mae'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid wedi creu pyllau mewn mannau yn y sir o ganlyniad i brosiectau a gyllidwyd gan grantiau.
Lacerta vivipara **Madfall** © Isabel Macho		• Gwelir madfallod amlaf ar diroedd comin, ar weundiroedd, ar rostiroedd, ar waliau cerrig sych, ar gloddiau ac ar glogwyni ar hyd arfordir Ynysoedd Prydain.	• Mae lleihad anferth wedi bod o ran y niferoedd yn ystod y degawdau diwethaf yn sgil colli cynefinoedd.

Y RHYWOGAETH		Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN	Y MATERION / CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL
Natrix natrix **Neidr y gwair** © W. Glam ARG		• Tiroedd llwyd / tiroedd amaeth / gweundiroedd a glaswelltiroedd yr iseldir / gwlyptiroedd	• Gan nad oes gwaith monitro trefnus wedi bod yn digwydd, mae'n anodd gwybod beth yw sefyllfa'r rhywogaeth o ran cadwraeth. Mae'r niferoedd wedi lleihau'n lleol yn sgil colli safleoedd dodwy a safleoedd bwydo. • Gellid defnyddio porfa wedi'i thorri i greu safleoedd dodwy wyau ar safleoedd addas • Gellid defnyddio tail (ceffyl yn bennaf) yn ofalus os bydd ar y safle i greu safleoedd dodwy wyau hefyd • Bydd creu pyllau'n helpu'r rhywogaeth hon.
Vipera berus **Gwiber** © W. Glam ARG		• Cynefinoedd agored megis gweundiroedd, rhostiroedd, coetiroedd agored a chlogwyni ar yr arfordir; prin y maent yn crwydro i erddi.	• Mae'r niferoedd wedi lleihau yn sgil colli cynefinoedd ac yn sgil erlyn y rhywogaeth. • Mae gan Cadwraeth Amffibiaidd ac Ymlusgiaid brosiect sy'n canolbwyntio ar wiberoedd a allai gynnwys safleoedd yn Sir Gâr. • Mae angen chwilio am safleoedd gaeafgysgu gwiberod a'u diogelu. • Mae gwaith ar lefel y dirwedd a chysylltedd nodweddion addas ar y safle (perthi, eithin, rhedyn, grug, mieri) yn bwysig.
	Partneriaeth Natur SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE Nature Partnership		